



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Cyflogi pobl ifanc 16 ac 17 oed yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 Rhagfyr 2021

Diweddariad olaf: 9 Tachwedd 2022

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](https://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/rheolwyr-a-chyflogwyr-gofal-cymdeithasol/cyflogi-pobl-ifanc-16-ac-17-oed-yn-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru> am y fersiwn diweddaraf.

Gallwch gyflogi pobl ifanc 16 ac 17 oed yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae pobl ifanc 16-17 oed yn dal i gael eu hystyried yn blant. Mae angen i chi ystyried rhai materion, ond ni ddylid ystyried y rhain yn rhwystrau i gyflogaeth.

## Manteision cyflogi pobl ifanc

Mae pobl ifanc yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr. Bydd gan rai brofiad o ofalu am aelodau'r teulu neu sgiliau bywyd perthnasol eraill.

Mae angen ichi sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl ifanc oherwydd eu hoedran.

## Canllawiau ar gyflogi pobl ifanc 16 ac 17 oed yn y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

**Dylech chi wneud y canlynol:**

- Cydymffurfio â'r 'rheoliadau gwasanaeth'. Yn benodol, dylech sicrhau:
  - Bod gan staff y gwybodaeth, sgiliau a'r cymhwysedd i sicrhau bod anghenion lles yr unigolyn wedi'w diwallu
  - Bod gan staff y sgiliau iaith a sgiliau cyfathrebu addas

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynglyn a'r rheoliadau [yma](#).

- Ymgymryd â phrosesau recriwtio diogel, gan gynnwys tystlythyrau a gwiriadau DBS.
- Cael gafael ar adnoddau dysgu a datblygu priodol, gan gynnwys prentisiaeth. I gael rhagor o wybodaeth am brentisiaethau, edrychwch ar [Gofal Cymdeithasol Cymru](#) a [Gyrfa Cymru](#).
- Cefnogi'r person ifanc yn ei raglen ddysgu.

- Rhoi pobl iau mewn tîm sefydledig i'w helpu i ddysgu gan staff profiadol.
- Sicrhau na ofynnir i bobl ifanc wneud gwaith nad ydynt wedi'u hyfforddi ar ei gyfer, neu sydd ddim yn gorfforol neu'n feddyliol addas iddynt ei wneud.
- Ystyried diffyg profiad ac anaeddfedrwydd y person ifanc wrth gwblhau asesiadau risg.
- Sicrhau eich bod yn cynnig cefnogaeth briodol a pharhaus iddynt; rhaglenni dysgu a datblygu, hyfforddiant, cefnogaeth gan gymheiriaid, cysgodi neu fentora.
- Trefnu amser rheolaidd gyda'r bobl ifanc ar gyfer myfyrio personol, gan roi cyfleoedd i drafod a gofyn cwestiynau ac i roi adborth ar eu datblygiad personol a'u gwaith.
- Sicrhau bod y rheolwr cofrestredig (neu berson dirprwyedig) yn ymgymryd â gwaith goruchwyllo ac arfarnu priodol yng nghyswllt y person ifanc.
- Sicrhau bod y person ifanc yn gyfarwydd â'r codau ymarfer proffesiynol.
- Sicrhewch nad yw person ifanc dibrofiad byth yn cael ei adael i roli lleoliad gofal, nac yn cael ei adael i weithio ar ei ben ei hun
- Diogelu'r amser a neilltuwyd i'r person ifanc ar gyfer gweithgareddau dysgu .
- Sicrhau eich bod yn talu'r [Isafswm Cyflog Cenedlaethol](#) o leiaf i unrhyw un sydd dros oedran gadael yr ysgol
- Glynw wrth y gofynion iechyd a diogelu sy'n berthnasol i bobl ifanc a chyfyngiadau cyfreithiol ar amser gweithio. Mae'r Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) a Gyrfa Cymru yn rhoi canllawiau ar y rheolau ynghylch yr oriau y gall pobl ifanc eu gweithio ac yn ystyried:
  - <https://www.acas.org.uk/young-workers-apprentices-and-work-experience>
  - <https://gyrfacymru.llyw.cymru/cyflogwyr/cyflogi-pobl-ifanc>

I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad am gyflogi pobl ifanc 16 ac 17 oed, ewch i:

- <https://www.hse.gov.uk/young-workers/index.htm> (Saesneg yn unig)
- <https://www.youthemployment.org.uk/youth-employment-experts/> (Saesneg yn unig)